# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd yn y Gadair o Eitem Rhif 5 ar yr Agenda); Cynghorwyr A. Asbrey; W. Gilligan; E.J. Goodjohn; W.A. Hennessy; N.P. Hodges; J. Lynch-Wilson; N. Marshallsea; J.M Norman a E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru), Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) ac R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) a E. Goodjohn.

538 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

539 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Godfrey a L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd)

540 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

541 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd H.M. Payne fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 8 – Diweddariad ar y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2021-2022. Natur y buddiant - cyfeiriwyd at Llamau ym mhwynt 2.10 tudalen 5 Adroddiad y Gwasanaeth Ieuenctid mewn perthynas â'r Prosiect Pwyslais. Nid oedd yn rheoli'r prosiect hwn ac roedd wedi datgan o'r blaen gan ei bod yn Rheolwr Prosiectau ym Mro Morgannwg.

542 CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMOR YR HYDREF 2022 -

Darparwyd y cyflwyniad gan Brif Bartner Gwella Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De; y Cynghorydd Cyswllt ar gyfer Dysgu Proffesiynol y Gymraeg a'r Cynghorydd Cyswllt ar gyfer Datblygu'r Gymraeg a bu'n hysbysu'r pwyllgor ar waith y gwasanaeth o ran hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd adran yn canolbwyntio ar sut yr oedd dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo yn Ysgol Llanilltud Fawr ac fe'i cyflwynwyd gan Bennaeth y Gymraeg ac Arweinydd Siarter Iaith Gymraeg yr ysgol a fu'n argymell, mewn ymateb i ymholiad gan yr Is-gadeirydd, bod dwyieithrwydd yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb yn gyffredinol ymhlith disgyblion yn yr ysgol. Cymeradwyodd y pwyllgor y dull a fabwysiadwyd ar gyfer dwyieithrwydd yn yr ysgol, ac mewn ymateb i geisiadau aelodau'r pwyllgor, fe'u hysbyswyd gan Bennaeth y Gymraeg ac Arweinydd Siarter y Gymraeg a'r Prif Bartner Gwella am ffyrdd y gellid rhannu dulliau o'r fath ag ysgolion eraill Bro Morgannwg i wella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Ar ôl diolch i Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a'r ysgol am y cyflwyniad, gwnaeth y pwyllgor y canlynol:

ARGYMHELLWYD – Nodi'r cyflwyniad Cymraeg ar y Cwricwlwm i Gymru a'r wybodaeth atodol.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r wybodaeth atodol.

543 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad a wnaed gan y Cabinet ar 17 Tachwedd 2022, a'r adroddiad atodol gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau. Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, gofynnodd yr Is-gadeirydd p'un a fyddai lleisiau pobl ifanc agored i niwed nad oeddent yn ymgysylltu ag unrhyw un o wasanaethau nac addysg y Cyngor, yn cael sylw. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr a Phennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant y byddai hyn yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ynghyd â manylion ynghylch cynyddu gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion, gyda'r nod o atal pobl ifanc rhag ymddieithrio o ddarpariaeth ysgolion.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor Craffu y canlynol:

ARGYMHELLWYD – Nodi Cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig ar Gynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2023-2024.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar Gynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2023-2024.

Cyflwynwyd y cyfeiriad a wnaed gan y Cabinet ar 17 Tachwedd 2022 a'r adroddiad atodol gan y Rheolwr Prosiect ar gyfer Strategaeth.

Ar ôl ystyried cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet yn llawn, gwnaeth y Pwyllgor Craffu y canlynol

ARGYMHELLWYD – Nodi Cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig ar y Strategaeth Fuddsoddi Dysgu a Sgiliau.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar Strategaeth Fuddsoddi Dysgu a Sgiliau'r Cyngor.

545 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad a wnaed gan y Cabinet ar 17 Tachwedd, 2022 a'r adroddiad atodol gan y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant. Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, gofynnodd y Cynghorydd Marshallsea pa gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Aelodau etholedig heb eu cynnal, ac a ellid gwneud y rhain yn orfodol. Mewn ymateb, dywedodd y swyddog fod y mwyafrif helaeth o Aelodau etholedig y Cyngor wedi dechrau'r broses gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac er bod gwneud gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfreithiol orfodol yn anodd, ei bod yn bosibl i'r Cyngor gymryd y farn eu bod yn ofynnol. Cytunodd y swyddog i godi'r mater gyda Grŵp Diogelu Corfforaethol y Cyngor.

Canmolodd yr Is-gadeirydd safon yr hyfforddiant diogelu yr oedd Aelodau etholedig y Cyngor wedi'i gael. Yn ogystal, dywedodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant mai'r disgwyl oedd y byddai pob llywodraethwr diogelu dynodedig ysgolion yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu Lefel 2, ac roedd sgyrsiau ar y gweill gydag ysgolion i drefnu bod y ddau lywodraethwr nad oeddent eisoes wedi cael hyfforddiant yn ei gael.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Norman, cadarnhaodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant y dylai hyfforddiant diogelu gael ei ddiweddaru bob dwy flynedd gan Aelodau etholedig y Cyngor, a bod cyfnod byrrach na rhai cynghorau eraill wedi'i fabwysiadu ym mholisi Cyngor Bro Morgannwg i adlewyrchu tirwedd newidiol y pwnc.

Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy wedyn p'un a ddylai hyfforddiant diogelu fod yn orfodol hefyd a ph'un a allai'r Cyngor annog Llywodraeth Cymru i'w wneud yn

orfodol. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant y byddai'n croesawu gwneud yr hyfforddiant yn orfodol, ond nodwyd eto ganddo ei bod yn anodd gwneud hyn yn ofyniad cyfreithiol. Ychwanegwyd bod hyn eisoes yn wir ar gyfer y rhai yr oedd eu gwaith yn golygu bod angen cyswllt heb oruchwyliaeth â grwpiau agored i niwed.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu y canlynol:

ARGYMHELLWYD – Nodi Cyfeiriad y Cabinet a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Canol Blwyddyn atodedig.

Rheswm dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet ac Adroddiad Diogelu Corfforaethol Canol Blwyddyn y Cyngor.

546 DIWEDDARIAD GWASANAETH IEUENCTID 2021-2022 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol a Llesiant a Rheolwr Ymgysylltu'r Gwasanaeth Ieuenctid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod y flwyddyn.

Enillodd y Gwasanaeth Ieuenctid Farc Ansawdd Arian am Waith Ieuenctid, a oedd yn gynnydd o ennill y wobr Efydd y llynedd. Roedd y Gwasanaeth Ieuenctid wedi ymaddasu'n sylweddol mewn ymateb i bandemig COVID-19 ac wedi gweithredu 'ffyrdd newydd o weithio' ers hynny, gan ganolbwyntio ar ddulliau arloesol newydd o ddarparu gwasanaethau. Roedd pwyslais wedi'i roi ar ddatblygu fforwm newydd a arweinir gan bobl ifanc.

Sicrhaodd y Gwasanaeth Ieuenctid fod rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sef Ysbrydoli i Gyflawni (I2A) ac Ysbrydoli i Weithio (I2W) ill dau yn parhau i weithredu ar draws y Fro, gan gynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Roedd cynlluniau cau ar y gweill ar gyfer Rhagfyr 2022.

Roedd Bro Morgannwg wedi perfformio'n dda o ran cyflwyno canlyniadau achrededig i sicrhau bod pobl ifanc yn ymgysylltu'n effeithiol â'r Gwasanaeth Ieuenctid. Roedd y Tîm Ennyn Diddordeb Disgyblion wedi'i sefydlu i gynorthwyo ysgolion â phobl ifanc nad oeddent yn gallu cynnal darpariaeth addysgol amser llawn mewn lleoliad ysgol prif ffrwd. Roedd y swyddogaethau sy'n ymwneud â'r fframwaith Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) bellach yn rhan o gylch gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid.

Roedd y tîm Targed wedi cael ei ail-lunio o ganlyniad i golli cyllid ESF. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn dal i allu cyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) ar gyfer atal NEET.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddogion, diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r tîm a fu'n ymwneud â gwaith mor llwyddiannus i gynorthwyo cymaint o bobl ifanc i fwynhau dyfodol cadarnhaol ac adeiladol. Yn ogystal, croesawyd cael barn cynghorau disgyblion ysgol, a chydnabuwyd pwysigrwydd sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed wrth lunio polisi.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cynghorydd Penn, dywedodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol a Llesiant, er bod cael gafael ar farn pobl ifanc o grwpiau mwy agored i niwed yn heriol, roedd cynghorau ysgol bellach yn cynrychioli ystod fwy amrywiol o ddisgyblion na chynt.

O ran gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc ddigartref neu mewn llety dros dro, dywedodd y Rheolwr Ymgysylltu fod y Cyngor wedi darparu amrywiaeth o gymorth i bobl ifanc mewn sefyllfaoedd o'r fath, gan gynnwys addurno cartrefi, darparu dodrefn a chymorth gyda bwyd a chymorth gyda mynediad at gyflogaeth, a bod hyn yn dangos hyblygrwydd y cyllid a ddefnyddir i deilwra gwasanaethau i anghenion unigol.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Norman, cadarnhaodd yr Uwch-reolwr Ieuenctid ar gyfer Darpariaeth Gynhwysol fod Clwb Ieuenctid Llanilltud Fawr bellach wedi ailagor yn dilyn heriau oherwydd y pandemig, a bod gwaith yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth o hyn ymhellach ac i gynyddu presenoldeb. Cadarnhaodd y swyddog fod darpariaeth symudol ieuenctid y Cyngor hefyd yn weithredol eto a'i fod yn mynd i leoliadau lluosog i ymgysylltu â phobl ifanc. Hysbysodd swyddogion y pwyllgor hefyd am amrywiaeth o ddigwyddiadau diweddar yn cynorthwyo ieuenctid ar draws Bro Morgannwg.

Cymeradwyodd yr Is-gadeirydd wedyn y Gwasanaeth Ieuenctid ar y cynnydd a wnaed, ac fe'u gwahoddwyd i fynd at y pwyllgor, petai unrhyw faterion y gallai'r Aelodau helpu yn eu cylch. Diolchodd y pwyllgor i'r swyddogion am waith llwyddiannus y gwasanaeth drwy gydol heriau ariannol a heriau eraill, a gwnaeth y pwyllgor y canlynol:

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn ystod y 12 mis diwethaf a datblygiadau a chyflawniadau parhaus y gwasanaeth.

(2) Derbyn diweddariad pellach ar gynnydd ar gyflawni parhaus, ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth o grantiau a risgiau posibl, mewn 12 mis (Tachwedd 2023).

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â chyfrifoldeb strategol y Cyngor am weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn Cyflogaeth, Hyfforddiant nac Addysg (NEETs).

(2) Er mwyn sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn parhau â goruchwyliaeth dros y Gwasanaeth Ieuenctid.

547 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 (CDS) - .

Pwrpas yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 2 am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi, 2022 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o bedwar amcan llesiant y cynllun corfforaethol yn Chwarter 2 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran bodloni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y cyngor ar gyfer 2022/23. Rhoddwyd perfformiad Gwyrdd i 93% (353 allan o 380) o'r gweithgareddau arfaethedig a amlinellwyd yn ein Cynllun Cyflawni Blynyddol, gan adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter; rhoddwyd statws Oren i 2% (7) o'r gweithgareddau arfaethedig, a statws Coch i 5% (20) o'r gweithgareddau arfaethedig.

O'r 128 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant cynllun corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 27 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 59% (16) o fesurau, statws Oren i 11% (3) o fesurau, a statws Coch i 30% (8) o fesurau. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 101 o fesurau gan fod 22 o'r rhain yn ymwneud â mesurau yn sefydlu perfformiad gwaelodlin ar gyfer 2022/23, 67 arall yn ymwneud â mesurau a fyddai'n cael eu monitro'n flynyddol, ac ar gyfer 12 o fesurau ni ddarparwyd diweddariad.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, dyfarnwyd statws perfformiad Gwyrdd i 97% (68 allan o 70) a rhoddwyd statws Coch i 3% (2). O'r pum mesur a adroddwyd, cafodd 40% (2) statws perfformiad Gwyrdd a chafodd 60% (3) statws Coch.

Y chwarter hwn, roedd yr eithriadau perfformiad wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau etholedig yn dilyn gweithdy ym mis Gorffennaf 2022 ar fonitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Er hwylustod, roedd eithriadau perfformiad sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu bellach yn amlygu statws presennol y camau perfformio coch a nodwyd yn y chwarter blaenorol i ddangos cyfeiriad, sef a oedd camau adfer arfaethedig wedi'u cymryd i symud y camau hyn yn eu blaenau.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Chwarter 2 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad a nodwyd. Ar ôl eu hystyried, argymhellwyd i'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu barn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet eu hystyried.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, cymeradwyodd yr Is-gadeirydd, ynghyd â'r Cynghorwyr Marshallsea a Penn, y gefnogaeth werthfawr i deuluoedd a gynigiwyd gan gyflwyniad amserol y Cyngor o brydau ysgol am ddim i bob plentyn oedran ysgol gynradd.

Amlygodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant hefyd waith a wnaed yn ystod y pandemig i sicrhau bod plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael darpariaeth bwyd gartref.

Heb unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, gwnaeth y pwyllgor y canlynol:

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ein gofynion perfformiad a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac yn adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru.

548 ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILIO CYMRU: ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB (EIAS): MWY NAG YMARFER BLWCH TICIO? (CAC) -

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Aelodau o ganfyddiadau astudiaeth genedlaethol Archwilio Cymru a edrychai ar y dull cyffredinol o gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Fel rhan o'r rhaglen waith archwilio genedlaethol ar gyfer 2021/22, edrychodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddulliau 44 o gyrff cyhoeddus (sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gyda ffocws arbennig ar nodi arferion da neu ddiddorol ac unrhyw feysydd cyffredin i'w gwella. Mae "Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?", (wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad) yn amlygu canfyddiadau allweddol y gwaith hwn. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod llawer o gyrff cyhoeddus, yn gadarnhaol, yn defnyddio canllawiau anstatudol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Ganolfan Ymarfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru i lunio eu dulliau, ond nid oedd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu defnyddio i'w llawn

botensial, yn enwedig o ran hyrwyddo cydraddoldeb a chydgysylltiad. Nodwyd y meysydd allweddol canlynol fel rhai i'w gwella:

- Mwy o eglurder ynghylch pa fathau o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid eu hasesu o ran effaith.
- Mwy o eglurder ynghylch disgwyliadau i ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel rhan o asesiad effaith integredig.
- Nodi effeithiau ymarferol penderfyniadau ar bobl yn well ac yn fwy amserol a sut mae gwahanol nodweddion gwarchodedig yn croestorri.
- Mwy o ymgysylltu a chynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Gwell monitro o effeithiau gwirioneddol polisïau ac arferion ar bobl.
- Newid yn y meddylfryd a'r diwylliannau sy'n symud asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ymaith o gael eu gweld fel ymarfer 'ticio blychau' ychwanegol.

Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad, un wedi'i anelu'n benodol at gyrff cyhoeddus, i adolygu eu dull presennol o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb:

- A4: Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Cymru, penodol fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law.

Mewn ymateb i'r argymhelliad uchod, byddai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Swyddog Cydraddoldeb Corfforaethol yn bwrw ymlaen ag adolygiad o broses asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb y Cyngor dros y chwe mis nesaf (erbyn Mai 2023) ac yn rhoi amrywiaeth o gamau gweithredu ar waith i hyrwyddo'r broses a'i defnydd o fewn y sefydliad dros y flwyddyn i ddod (erbyn Rhagfyr 2023). Yn unol â threfniadau monitro perfformiad y Cyngor, byddai cynnydd yn erbyn y meysydd gwella rheoleiddiol yn cael ei fonitro drwy'r Insight Tracker. Byddai pob Pwyllgor Craffu yn parhau i gael gwybod am gynnydd yn erbyn y meysydd gwella rheoleiddiol trwy drefniadau monitro perfformiad chwarterol. Byddai hyn yn cael ei ategu gan adolygiad chwe mis a blynyddol o gynnydd rheoleiddiol, a fyddai'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ar gyfer trosolwg terfynol. Byddai cynnydd hefyd yn cael ei fonitro gan Archwilio Cymru fel rhan o raglen waith archwilio flynyddol y Cyngor.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ystyried cynnwys yr adroddiad gan gynnwys ymateb y Cyngor, gydag unrhyw argymhellion / sylwadau'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac, wedi hynny, i'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r argymhelliad.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr ac yng ngoleuni materion a amlygwyd yn flaenorol i'r pwyllgor ynghylch sut yr oedd pryder wedi effeithio'n negyddol ar ailintegreiddio rhai disgyblion i leoliadau ysgol yn dilyn y pandemig, dywedodd yr

Is-gadeirydd y byddent yn croesawu mwy o bwyslais ar anabledd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, fel agwedd o anghydraddoldeb posibl.

Heb unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor Craffu y canlynol:

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cynnwys adroddiadau eglurhaol ac atodedig Archwilio Cymru.

(2) Cyfeirio'r sylw canlynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i'r Cabinet iddo ei ystyried a chymeradwyo camau arfaethedig y Cyngor i fynd i'r afael ag argymhelliad Archwilio Cymru (A4):

- Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw anghydraddoldeb iechyd meddwl yn cael ei adrodd digon ac mae'r mater hwn yn effeithio'n sylweddol ar y boblogaeth a'r gweithlu. Felly, mae'n bwysig canolbwyntio ar anabledd sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl mewn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r byd ar ôl y pandemig a'r anhawster o gael rhai pobl ifanc ac oedolion yn ôl i'r ysgol neu'r gwaith.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol ar ymateb y Cyngor i Adroddiad Archwilio Cymru i gynnal adolygiad o'i broses Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn y chwe mis nesaf (erbyn mis Mai 2023) a rhoi sawl cam gweithredu ar waith i hyrwyddo'r broses a'i defnydd o fewn y sefydliad dros y flwyddyn i ddod (erbyn mis Rhagfyr 2023).

(2) Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet yn ymwybodol o sylw'r Pwyllgor cyn eu trosolwg olaf o adolygiad bob chwe mis a blynyddol y Cyngor o gynnydd rheoleiddiol.